

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered.

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1 - 8	Adrannau 1 - 8
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 9 - 11	Adrannau 9 - 11
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 12 - 30	Adrannau 12 - 30
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 31 - 45	Adrannau 31 - 45
Schedule 4	Atodlen 4
Sections 46 - 47	Adrannau 46 - 47
Long title	Teitl hir

‘(e) the net gain principle.’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘(e) yr egwyddor enillion net.’.

Janet Finch-Saunders

10

Section 2, page 2, after line 2, insert –

- ‘(e) the innovation principle;
- (f) the non-regression principle;
- (g) the appropriate scale principle.’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- ‘(e) yr egwyddor arloesi;
- (f) yr egwyddor dim atchwelyd;
- (g) yr egwyddor graddfa briodol.’.

Janet Finch-Saunders

11

Section 7, page 5, line 18, leave out ‘after each general election’ and insert ‘at least every two years’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 20, hepgorer ‘ar ôl pob etholiad cyffredinol’ a mewnosoder ‘o leiaf bob dwy flynedd’.

Janet Finch-Saunders

12

Section 7, page 5, line 20, leave out subsection (10).

Adran 7, tudalen 5, llinell 22, hepgorer is-adran (10).

Janet Finch-Saunders

13

Section 7, page 5, line 24, leave out ‘and (8) to (10)’ and insert ‘, (8) and (9)’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 26, hepgorer ‘ac (8) i (10)’ a mewnosoder ‘, (8) a (9)’.

Delyth Jewell

53

Page 5, after line 26, insert a new section –

[] Environmental protection and improvement report

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a report under this section (an “environmental protection and improvement report”) before the end of the period of 5 years beginning with the day on which this Act comes into force.
- (2) The environmental protection and improvement report must set out –

- (a) the Welsh Ministers’ assessment of the impact Part 1 of this Act has had on contributing to the environmental objective;
 - (b) steps the Welsh Ministers intend to take (which may include legislative steps) to increase the effectiveness of Part 1 of this Act in contributing to the environmental objective.
- (3) The Welsh Ministers may prepare and publish subsequent reports setting out the matters in subsection (2) from time to time.
- (4) The reports published under subsections (1) and (3) must be laid before Senedd Cymru.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 28, mewnosoder adran newydd –

[] Adroddiad diogelu a gwella’r amgylchedd

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad o dan yr adran hon (“adroddiad diogelu a gwella’r amgylchedd”) cyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Ddeddf hon i rym.
- (2) Rhaid i’r adroddiad diogelu a gwella’r amgylchedd nodi –
 - (a) asesiad Gweinidogion Cymru o’r effaith y mae Rhan 1 o’r Ddeddf hon wedi ei chael ar gyfrannu at yr amcan amgylcheddol;
 - (b) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd (a gaiff gynnwys camau deddfwriaethol) i gynyddu effeithiolrwydd Rhan 1 o’r Ddeddf hon wrth gyfrannu at yr amcan amgylcheddol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau dilynol sy’n nodi’r materion yn is-adran (2) o bryd i’w gilydd.
- (4) Rhaid i’r adroddiadau a gyhoeddir o dan is-adrannau (1) a (3) gael eu gosod gerbron Senedd Cymru.’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Janet Finch-Saunders

24

Schedule 1, page 30, after line 24, insert –

- ‘(4) Before making regulations under sub-paragraph (3), the Welsh Ministers must consult a committee of Senedd Cymru for the time being with remit for environmental protection.’.

Atodlen 1, tudalen 30, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith.’.

Janet Finch-Saunders

33

Schedule 1, page 30, after line 24, insert –

- ‘(4) Before making regulations under sub-paragraph (3) the Welsh Ministers must consult –

- (a) a committee of Senedd Cymru for the time being with remit for environmental protection,
- (b) the OEGW, and
- (c) such other persons as they consider appropriate.’.

Atodlen 1, tudalen 30, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
- (a) pwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith,
 - (b) SLIAC, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Janet Finch-Saunders

25

Schedule 1, page 31, after line 2, insert –

- ‘() a member of the staff of the Welsh Government;’.

Atodlen 1, tudalen 31, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() yn aelod o staff Llywodraeth Cymru;’.

Delyth Jewell

46

Schedule 1, page 33, after line 19, insert –

- ‘() The Welsh Ministers may appoint a person as a non-executive member only if Senedd Cymru has approved the appointment.’.

Atodlen 1, tudalen 33, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- ‘() Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod anweithredol onid yw Senedd Cymru wedi cymeradwyo’r penodiad.’.

Janet Finch-Saunders

26

Schedule 1, page 37, line 18, leave out –

‘Welsh Ministers must pay the OEGW such sums as they consider to be sufficient to enable it to carry out its functions.

- (2) The Welsh Ministers’ payments to the OEGW may be made at such times and on such conditions as the Welsh Ministers determine’

and insert –

‘expenditure of the OEGW is to be payable out of the Welsh Consolidated Fund.

- (2) For each financial year, the OEGW must prepare an estimate of the OEGW’s expenditure that is attributable to the exercise of the OEGW’s functions.

- (3) At least six months before the start of the financial year to which an estimate relates, the OEGW must submit the estimate to Senedd Cymru.
- (4) During the financial year to which an estimate relates, the OEGW may prepare a revised estimate and submit it to Senedd Cymru; and references in the rest of this paragraph to an estimate include a revised estimate.
- (5) Senedd Cymru must –
 - (a) examine each estimate submitted to it,
 - (b) decide whether it is satisfied that the estimated level of expenditure is consistent with the economical, efficient and effective discharge by the OEGW of its functions, and
 - (c) if it is not so satisfied, make such modifications to the estimate as it considers appropriate for the purpose of achieving such consistency.
- (6) Senedd Cymru must, after concluding its examination and making its modifications (if any) to the estimate, lay the estimate before Senedd Cymru.
- (7) Senedd Cymru must by standing orders make provision regarding the exercise of the functions conferred upon it by this paragraph.
- (8) Such provision includes, but is not limited to, delegating functions to a committee or sub-committee of Senedd Cymru or the chair of such committee or sub-committee'.

Atodlen 1, tudalen 37, llinell 18, hepgorer paragraff 16 a mewnosoder –

- '16
- (1) Mae gwariant SLIAC i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru.
 - (2) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i SLIAC lunio amcangyfrif o wariant SLIAC sydd i'w briodoli i arfer swyddogaethau SLIAC.
 - (3) O leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r amcangyfrif yn ymwneud â hi, rhaid i SLIAC gyflwyno'r amcangyfrif i Senedd Cymru.
 - (4) Yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r amcangyfrif yn ymwneud â hi, caiff SLIAC lunio amcangyfrif diwygiedig a'i gyflwyno i Senedd Cymru; ac mae cyfeiriadau at amcangyfrif yng ngweddill y paragraff hwn yn cynnwys amcangyfrif diwygiedig.
 - (5) Rhaid i Senedd Cymru –
 - (a) archwilio pob amcangyfrif a gyflwynir iddi,
 - (b) penderfynu a yw'n fodlon bod lefel amcangyfrifedig y gwariant yn gyson â SLIAC yn cyflawni ei swyddogaethau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac
 - (c) os nad yw'n fodlon felly, wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben sicrhau cysondeb o'r fath.
 - (6) Rhaid i Senedd Cymru, ar ôl cwblhau ei harchwiliad a gwneud ei haddasiadau (os oes rhai) i'r amcangyfrif, osod yr amcangyfrif gerbron Senedd Cymru.
 - (7) Rhaid i Senedd Cymru drwy reolau sefydlog wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y paragraff hwn.
 - (8) Mae'r ddarpariaeth honno yn cynnwys dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor neu is-bwyllgor yn Senedd Cymru neu gadeirydd y pwyllgor hwnnw neu'r is-bwyllgor hwnnw, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.'

Carolyn Thomas

6

32

Schedule 1, page 39, after line 25, insert –

- ‘() If a report indicates that the OEGW considers that the Welsh Ministers did not provide it with sufficient sums to carry out its functions in the financial year to which the report relates, the OEGW must submit the report to the Welsh Ministers.’.

Atodlen 1, tudalen 39, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- ‘() Os yw adroddiad yn nodi bod SLIAC yn ystyried na wnaeth Gweinidogion Cymru ddarparu symiau digonol iddi i gyflawni ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi, rhaid i SLIAC gyflwyno’r adroddiad i Weinidogion Cymru.’.

This amendment provides that if the OEGW’s annual report indicates that it considers the sums allocated to it have been insufficient to enable it to perform its functions, the OEGW is required to send the report to the Welsh Ministers.

Mae’r gwelliant hwn yn darparu, os yw adroddiad blynyddol SLIAC yn nodi ei bod yn ystyried nad oedd y symiau a ddyrannwyd iddi yn ddigonol iddi i gyflawni ei swyddogaethau, fod rhaid i SLIAC anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru.

Rhys ab Owen

8

Schedule 1, page 40, after line 7, insert –

Website

- [] The OEGW must establish and maintain a website.’.

Atodlen 1, tudalen 40, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

Gwefan

- [] Rhaid i SLIAC sefydlu a chynnal gwefan.’.

Delyth Jewell

36

Section 10, page 6, line 3, leave out ‘environmental objective’ and insert –

‘attainment of a high level of environmental protection and an improvement of the environment, and

- () ensuring the effectiveness of environmental law and that it is complied with, implemented and applied’.

Adran 10, tudalen 6, hepgorer ‘yr amcan amgylcheddol’ a mewnosoder –

‘gyraedd lefel uchel o ran diogelu’r amgylchedd a gwelliant i’r amgylchedd, a

- () sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ac y cydymffurfir â hi, y’i gweithredir ac y’i cymhwysir’.

The purpose of this amendment is to provide a more focused general purpose for the OEGW. The amendment maintains symmetry with the environmental objective set out in section 1 of the Bill, which includes reference to the Well-being of Future Generations Act 2015 (WFG Act), by referencing the attainment of a high level of environmental protection and an improvement of the environment whilst emphasising the OEGW's role in ensuring compliance with and effectiveness, implementation, and application of environmental law.

Diben y gwelliant hwn yw darparu diben cyffredinol mwy penodol ar gyfer SLIAC. Mae'r gwelliant yn sicrhau cymesuredd â'r amcan amgylcheddol a nodir yn adran 1 o'r Bil, sy'n cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Cyfeirir at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd wrth bwysleisio rôl SLIAC o ran sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn effeithiol, y cydymffurfir â hi, y'i gweithredir ac y'i cymhwysir.

Rhys ab Owen

1

Section 10, page 6, after line 4, insert –

'(c) in accordance with the Aarhus convention.'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

'(c) yn unol â chonfensiwn Aarhus.'

Delyth Jewell

47

Schedule 2, page 41, line 8, leave out 'of contributing to the environmental objective' and insert 'set out in section 10(a)'.

Atodlen 2, tudalen 41, llinell 8, hepgorer 'o gyfrannu at yr amcan amgylcheddol' a mewnosoder 'a nodir yn adran 10(a)'.

This amendment is consequential on previous amendment 36 and reflects that the OEGW must set out in its strategy how it intends to comply with its duty to exercise its functions for the general purpose set out in section 10(a), and not the 'environmental objective' as presently drafted.

Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol i'r gwelliant 36 blaenorol ac mae'n adlewyrchu bod rhaid i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'i dyletswydd i arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol a nodir yn adran 10(a), ac nid yr 'amcan amgylcheddol' fel sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Janet Finch-Saunders

27

Schedule 2, page 41, after line 17, insert –

'() engage with counterpart environmental governance bodies in relation to matters connected to its functions which fall outside devolved provision;'

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

'() ymgysylltu â chyrff llywodraethiant amgylcheddol cyfatebol mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau sy'n dod y tu allan i ddarpariaeth ddatganoledig;'

Joyce Watson

34

Gyda chefnogaeth / Supported by: Delyth Jewell

Schedule 2, page 41, after line 20, insert –

‘the Committee on Climate Change (within the meaning given by section 32 of the Climate Change Act 2008 (c. 27)),’.

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 32 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (p. 27)), a’.

This amendment requires the OEGW to set out in its strategy how it will exercise its functions in a way that avoids overlap with the functions of the UK Committee on Climate Change.

Mae’r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy’n osgoi gorgyffwrdd â swyddogaethau’r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn y DU.

Janet Finch-Saunders

28

Schedule 2, page 41, after line 20, insert –

‘() the Drinking Water Inspectorate,’.

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

‘() yr Arolygiaeth Dŵr Yfed,’.

Janet Finch-Saunders

29

Schedule 2, page 41, after line 24, insert –

‘() the Water Services Regulation Authority (“Ofwat”),’.

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘() yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (“Ofwat”),’.

Janet Finch-Saunders

30

Schedule 2, page 42, after line 25, insert –

‘() members of the public in Wales,’.

Atodlen 2, tudalen 42, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘() aelodau’r cyhoedd yng Nghymru,’.

Delyth Jewell

37

Section 12, page 6, after line 23, insert –

‘(4) A public authority must respond to a report published by the OEGW under this section if it is requested to do so by the OEGW.’

- (5) A response under subsection (4) must be received by the OEGW before the end of 3 months beginning with the day the report was published under subsection (2).
- (6) Where the Welsh Ministers respond to a report under this section, they must lay a copy of it before Senedd Cymru.’

Adran 12, tudalen 6, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- ‘(4) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ymateb i adroddiad a gyhoeddir gan SLIAC o dan yr adran hon os gofynnir iddo wneud hynny gan SLIAC.
- (5) Rhaid i SLIAC gael ymateb o dan is-adran (4) cyn diwedd 3 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddwyd yr adroddiad o dan is-adran (2).
- (6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymateb i adroddiad o dan yr adran hon, rhaid iddynt osod copi ohono gerbron Senedd Cymru.’

Delyth Jewell

38

Section 16, page 8, line 13, leave out ‘The OEGW must prepare and publish a document that sets out the procedure by which representations may be made’ and insert ‘A person may make representations’.

Adran 16, tudalen 8, llinell 13, hepgorer ‘Rhaid i SLIAC lunio a chyhoeddi dogfen sy’n nodi’r weithdrefn y caniateir cyflwyno sylwadau i SLIAC drwyddi’ a mewnosoder ‘Caiff person gyflwyno sylwadau i SLIAC’.

This amendment clarifies that a person may make representations to the OEGW in relation to the matters which the OEGW may investigate.

Mae’r gwelliant hwn yn egluro y caiff person gyflwyno sylwadau i SLIAC mewn perthynas â’r materion y caiff SLIAC ymchwilio iddynt.

Delyth Jewell

39

Section 16, page 8, after line 17, insert –

- ‘() The OEGW must prepare and publish a document that sets out the procedure by which the representations may be made.’.

Adran 16, tudalen 8, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i SLIAC lunio a chyhoeddi dogfen sy’n nodi’r weithdrefn y caniateir cyflwyno’r sylwadau i SLIAC drwyddi.’.

This is a consequential amendment that reinserts the provision requiring the OEGW to prepare and publish a document that sets out the procedure by which the representations may be made, which is to be omitted by the amendment to section 16 set out above.

Mae hwn yn welliant canlyniadol sy’n ailfwnosod y ddarpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i SLIAC lunio a chyhoeddi dogfen sy’n nodi’r weithdrefn y caniateir cyflwyno’r sylwadau drwyddi, sydd i’w hepgor gan y gwelliant i adran 16 a nodir uchod.

Rhys ab Owen

2

Section 17, page 8, after line 28, insert –

- ‘(3) Subject to section 27, if the OEGW produces a report in connection with an investigation under this section, the OEGW must publish the report as soon as reasonably practicable.’.

Adran 17, tudalen 8, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘(3) Yn ddarostyngedig i adran 27, os yw SLIAC yn llunio adroddiad mewn cysylltiad ag ymchwiliad o dan yr adran hon, rhaid i SLIAC gyhoeddi’r adroddiad cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.’.

Rhys ab Owen

3

Page 8, after line 28, insert a new section –

‘Record of representations

[] Record of representations

- (1) The OEGW must maintain a public register under this section (the “record of representations”).
- (2) The record of representations must –
 - (a) itemise each representation received by the OEGW in a table format;
 - (b) provide an overview of each representation;
 - (c) indicate whether the OEGW carried out an investigation in relation to each representation;
 - (d) explain, if applicable, the reason why the OEGW did not investigate a matter on which it received a representation.
- (3) Nothing in this section requires the OEGW to publish any information which would be in breach of the data protection legislation.
- (4) In this section, “the data protection legislation” has the same meaning as in the Data Protection Act 2018 (c. 12) (see section 3(9) of that Act).’.

Tudalen 8, ar ôl llinell 29, mewnosoder adran newydd –

‘Cofnod o sylwadau

[] Cofnod o sylwadau

- (1) Rhaid i SLIAC gynnal cofrestr gyhoeddus o dan yr adran hon (y “cofnod o sylwadau”).
- (2) Rhaid i’r cofnod o sylwadau –
 - (a) eitemeiddio pob sylw a ddaw i law SLIAC ar ffurf tabl;
 - (b) rhoi trosolwg o bob sylw;
 - (c) dangos a gynhaliodd SLIAC ymchwiliad mewn perthynas â phob sylw;
 - (d) esbonio, os yw’n berthnasol, pam nad ymchwiliodd SLIAC i fater y cafodd sylw arno.
- (3) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy’n ei gwneud yn ofynnol i SLIAC gyhoeddi unrhyw wybodaeth a fyddai’n torri’r ddeddfwriaeth diogelu data.

- (4) Yn yr adran hon, mae i “y ddeddfwriaeth diogelu data” yr un ystyr ag a roddir i “the data protection legislation” yn Neddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (gweler adran 3(9) o’r Ddeddf honno).’.

Delyth Jewell

40

Section 35, page 17, line 11, after ‘biodiversity’, insert ‘or to restoring biodiversity to resilient levels’.

Adran 35, tudalen 17, llinell 13, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth’.

This amends the condition in section 6B(2) of the Environment (Wales) Act 2016, to be inserted into that Act by section 35(1) of the Bill, so that the Welsh Ministers can only set biodiversity targets if achieving such targets will either contribute to halting and reversing the decline in biodiversity or to restoring biodiversity to resilient levels.

Mae’r gwelliant hwn yn diwygio’r amod yn adran 6B(2) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf hon gan adran 35(1) o’r Bil, fel na chaiff Gweinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth oni fydd cyrraedd y targedau hynny naill ai’n cyfrannu at atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

Rhys ab Owen

4

Section 35, page 18, after line 11, insert –

[] Duty to make regulations setting targets: plastic and microplastic pollution

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target in respect of reducing plastic and microplastic pollution to levels that are not harmful to biodiversity in Wales.
- (2) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 35, tudalen 18, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

[] Dyletswydd i wneud rheoliadau sy’n gosod targedau: llygredd plastig a microblastig

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed mewn cysylltiad â lleihau llygredd plastig a microblastig i lefelau nad dydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth yng Nghymru.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsa xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Janet Finch-Saunders

5A

As an amendment to amendment 5, line 8, leave out ‘2030’ and insert ‘2035’.

Fel gwelliant i welliant 5, llinell 8, hepgorer ‘2030’ a mewnosoder ‘2035’.

Rhys ab Owen

5

Section 35, page 18, after line 11, insert –

{ [] 2050 biodiversity recovery target

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target (the “2050 biodiversity recovery target”) in respect of matters relating to biodiversity recovery.
- (2) Before making regulations under subsection (1) which set or amend a target, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target, or the amended target, would result in the improvement in the status of species and ecosystems by 2030 and their clear recovery in Wales by 2050.
- (3) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 35, tudalen 18, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

{ [] Targed adfer bioamrywiaeth 2050

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed (“targed adfer bioamrywiaeth 2050”) mewn cysylltiad â materion sy’n ymwneud ag adfer bioamrywiaeth.
- (2) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) sy’n gosod neu’n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni y byddai cyrraedd y targed, neu ddiwygio’r targed, yn arwain at wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a’u hadfer yn glir yng Nghymru erbyn 2050.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Delyth Jewell

54

Section 35, page 18, after line 11, insert –

{} **Duty to make regulations setting targets: abundance of swifts**

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target aimed at increasing the abundance of swifts in Wales through the incorporation of swift bricks in new housing developments.
- (2) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 18 months beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 35, tudalen 18, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

{} **Dyletswydd i wneud rheoliadau sy’n gosod targedau: toreithrwydd gwenoliaid duon**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed sydd â’r nod o gynyddu toreithrwydd gwenoliaid duon yng Nghymru drwy gynnwys briciau gwenoliaid duon mewn datblygiadau tai newydd.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Rhys ab Owen

6

Section 35, page 18, line 23, after ‘pollution’, insert ‘, including but not limited to microplastic pollution’.

Adran 35, tudalen 18, llinell 26, ar ôl ‘llygredd’, mewnosoder ‘, gan gynnwys llygredd microblastig ond heb fod yn gyfyngedig iddo’.

Rhys ab Owen

31

Section 35, page 19, after line 5, insert –

{} **Duty to make regulations setting targets: non-statutory sites**

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target in respect of increasing the contribution made by non-statutory sites to delivering an ecological network for biodiversity and resilient ecosystems.
- (2) In this section, “non-statutory sites” includes, but is not limited to –
 - (a) Sites of Importance for Nature Conservation;
 - (b) Local Wildlife Sites;
 - (c) Local Nature Reserves;

(d) Regionally Important Geodiversity Sites.

- (3) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

[] Dyletswydd i wneud rheoliadau sy’n gosod targedau: safleoedd anstatudol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed mewn cysylltiad â chynyddu’r cyfraniad a wneir gan safleoedd anstatudol i sicrhau rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn.
- (2) Yn yr adran hon, mae “safleoedd anstatudol” yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i’r canlynol –
- (a) Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur;
 - (b) Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol;
 - (c) Gwarchodfeydd Natur Lleol;
 - (d) Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsa xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Janet Finch-Saunders

14

Section 35, page 19, after line 11, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must consult –
- (a) a committee of Senedd Cymru for the time being with remit for environmental protection;
 - (b) members of the public in Wales.’.

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
- (a) pwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith;
 - (b) aelodau’r cyhoedd yng Nghymru.’.

Delyth Jewell

41

Section 35, page 19, after line 11, insert –

- '() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must consult –
 - (a) such persons or bodies that the Welsh Ministers reasonably consider have an interest in matters relating to biodiversity in Wales;
 - (b) each public authority within section 6(11) of this Act;
 - (c) members of the public in Wales.'

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- '() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
 - (a) unrhyw bersonau neu gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol fod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru;
 - (b) pob awdurdod cyhoeddus o fewn adran 6(11) o'r Ddeddf hon;
 - (c) aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.'

Janet Finch-Saunders

15

Section 35, page 19, after line 22, insert –

- '() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target would not have an adverse impact on biodiversity outside Wales.'

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni na fyddai cyrraedd y targed yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth y tu allan i Gymru.'

Janet Finch-Saunders

16

Section 35, page 19, after line 22, insert –

- '() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target would not have a materially negative impact on agricultural output.'

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni na fyddai cyrraedd y targed yn cael effaith sylweddol negyddol ar allbwn amaethyddol.'

Section 35, page 19, after line 22, insert –

- () Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must have regard to ensuring a balance of targets in relation to the land and sea.’.

Adran 35, tudalen 19, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- () Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i sicrhau cydbwysedd o dargedau mewn perthynas â’r tir a’r môr.’.

Huw Irranca-Davies 35

Section 35, page 19, line 25, leave out ‘(3)’ and insert ‘(4)’.

Adran 35, tudalen 19, llinell 24, hepgorer ‘(3)’ a mewnosoder ‘(4)’.

Delyth Jewell 42

Section 35, page 20, line 11, after ‘biodiversity’, insert ‘or to restoring biodiversity to resilient levels’.

Adran 35, tudalen 20, llinell 12, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth’.

This amendment to section 6G(3) of the Environment (Wales) Act 2016, to be inserted into that Act by section 35(1) of the Bill, is consequential to biodiversity amendment 40. Its purpose is to reflect the amended condition in section 6B(2). The effect of this amendment is that, when the Welsh Ministers carry out a review of all targets under section 6G(3), (4) or (5), they must consider whether further targets would be more effective in contributing to halting and reversing the decline in biodiversity or to restoring biodiversity to resilient levels.

Mae’r gwelliant hwn i adran 6G(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf honno gan adran 35(1) o’r Bil, yn ganlyniadol i welliant 40 ynghylch bioamrywiaeth. Ei ddiben yw adlewyrchu’r amod sy’n cael ei ddiwygio yn adran 6B(2). Effaith y gwelliant hwn yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn cynnal adolygiad o’r holl dargedau o dan adran 6G(3), (4) neu (5), ystyried a fyddai rhagor o dargedau yn fwy effeithiol o ran cyfrannu at atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

Janet Finch-Saunders 18

Section 35, page 20, line 16, leave out ‘10’ and insert ‘4’.

Adran 35, tudalen 20, llinell 18, hepgorer ‘10 mlynedd’ a mewnosoder ‘4 blynedd’.

Janet Finch-Saunders 19

Section 35, page 20, line 19, leave out ‘2041’ and insert ‘2032’.

Adran 35, tudalen 20, llinell 22, hepgorer ‘2041’ a mewnosoder ‘2032’.

Section 35, page 21, line 14, after ‘biodiversity’, insert ‘or to restoring biodiversity to resilient levels’.

Adran 35, tudalen 21, llinell 15, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘nac at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth’.

This amendment to section 6H(1)(a) of the Environment (Wales) Act 2016, to be inserted into that Act by section 35(1) of the Bill, is consequential to biodiversity amendment 40. Its purpose is to reflect the amended condition in section 6B(2). The effect of this amendment is that the restriction upon the Welsh Ministers’ power to make regulations to lower or revoke a target in section 6H(1)(a) is expanded to reflect that the purpose of a target set under regulation 6B could include restoring biodiversity to resilient levels.

Mae’r gwelliant hwn i adran 6H(1)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf honno gan adran 35(1) o’r Bil, yn ganlyniadol i welliant 40 ynghylch bioamrywiaeth. Ei ddiben yw adlewyrchu’r amod sy’n cael ei ddiwygio yn adran 6B(2). Effaith y gwelliant hwn yw bod y cyfyngiad sydd ar bŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i leihau neu ddirymu targed yn adran 6H(1)(a) yn cael ei ehangu i adlewyrchu y gallai diben targed a osodir o dan reoliad 6B gynnwys adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

Janet Finch-Saunders **20**

Section 35, page 22, after line 15, insert –

- ‘(d) an assessment of the impact of the target on agricultural output since being set in regulations.’.

Adran 35, tudalen 22, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- ‘(d) asesiad o effaith y targed ar allbwn amaethyddol ers ei osod mewn rheoliadau.’.

Janet Finch-Saunders **21**

Section 35, page 22, line 27, after ‘expertise’, insert ‘, and

- (b) take account of any such advice’.

Adran 35, tudalen 22, llinell 27, ar ôl ‘perthnasol’, mewnosoder ‘, a

- (b) ystyried unrhyw gyngor o’r fath’.

Carolyn Thomas **49**

Section 37, page 23, line 19, after ‘(6),’, insert ‘ –

- (i) consult the Office of Environmental Governance Wales, and
- (ii) ‘.

Adran 37, tudalen 23, llinell 22, ar ôl ‘(6),’, mewnosoder ‘ –

- (i) ymgynghori â Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a
- (ii) ‘.

The purpose of this amendment to section 6(6A)(a) of the Environment (Wales) Act 2016, to be inserted into that Act by section 37 of the Bill, is to make express provision to require the Welsh Ministers to consult with the OEGW when they are preparing their section 6 plan.

Diben y gwelliant hwn i adran 6(6A)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf honno gan adran 37 o’r Bil, yw gwneud darpariaeth ddatganedig i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLIAC pan fyddant yn llunio eu cynllun adran 6.

Delyth Jewell

44

Section 37, page 23, after line 20, insert –

- ‘() when preparing their plan under subsection (6), consult –
 - (i) such persons or bodies as the Welsh Ministers reasonably consider have an interest in matters relating to biodiversity in Wales;
 - (ii) members of the public in Wales,’.

Adran 37, tudalen 23, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- ‘() pan fyddant yn paratoi eu cynllun o dan is-adran (6), ymgynghori ag –
 - (i) unrhyw bersonau neu gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol fod ganddynt fuddiant mewn materion sy’n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru;
 - (ii) aelodau’r cyhoedd yng Nghymru,’.

Delyth Jewell

45

Section 37, page 24, line 2, after ‘biodiversity’, insert ‘or to restoring biodiversity to resilient levels’.

Adran 37, tudalen 24, llinell 2, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘nac at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth’.

This amendment to section 6(6B)(d) of the Environment (Wales) Act 2016, to be inserted into that Act by section 37 of the Bill, is consequential to biodiversity amendment 40. Its purpose is to reflect the amended condition in section 6B(2) in the Welsh Ministers’ plans under section 6(6). The effect of this amendment is that the Welsh Ministers must set out in their plan how the biodiversity targets set in regulations under section 6B, if met, will contribute to either halting and reversing the decline in biodiversity or to restoring biodiversity to resilient levels.

Mae’r gwelliant hwn i adran 6(6B)(d) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf honno gan adran 37 o’r Bil, yn ganlyniadol i welliant 40 ynghylch bioamrywiaeth. Ei ddiben yw adlewyrchu’r amod sy’n cael ei ddiwygio yn adran 6B(2) yng nghynlluniau Gweinidogion Cymru o dan adran 6(6). Effaith y gwelliant hwn yw bod rhaid i Weinidogion Cymru nodi yn eu cynllun sut y bydd y targedau bioamrywiaeth a osodir mewn rheoliadau o dan adran 6B, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at naill ai atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

Janet Finch-Saunders

22

Section 37, page 24, after line 7, insert –

- ‘(g) an assessment of the impact of the actions they propose to take under paragraph (c) on agricultural output in Wales.’.

Adran 37, tudalen 24, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘(g) asesiad o effaith y camau y maent yn bwriadu eu cymryd o dan baragraff (c) ar allbwn amgylcheddol yng Nghymru.’.

Carolyn Thomas

50

Section 38, page 24, after line 22, insert –

- ‘(7B) As soon as reasonably practicable after publishing their report under subsection (7), the Welsh Ministers must send a copy of it to the Office of Environmental Governance Wales.
- (7C) Sending a copy of the report under subsection (7B) is to be treated as a request by the Welsh Ministers to the Office of Environmental Governance Wales for advice under section 13 of the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx).’.

Adran 38, tudalen 24, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘(7B) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi eu hadroddiad o dan is-adran (7), rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi ohono i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.
- (7C) Mae anfon copi o’r adroddiad o dan is-adran (7B) i’w drin fel cais gan Weinidogion Cymru i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru am gyngor o dan adran 13 o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx).’.

The purpose of this amendment is to provide an express role for the OEGW in the Welsh Ministers’ reporting process under section 6(7) of the Environment (Wales) Act 2016, as amended by section 38 of the Bill. The effect is that the Welsh Ministers must provide a copy of their section 6 report to the OEGW as soon as reasonably practicable after publishing it. Doing so will be treated as the Welsh Ministers requesting advice from the OEGW under section 13 of the Bill and the provisions of that section will apply accordingly.

Diben y gwelliant hwn yw darparu rôl ddatganedig ar gyfer SLIAC ym mhroses adrodd Gweinidogion Cymru o dan adran 6(7) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fel sy’n cael ei diwygio gan adran 38. Yr effaith yw bod rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu copi o’u hadroddiad adran 6 i SLIAC cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl ei gyhoeddi. Os gwneir hynny, caiff ei drin fel pe bai Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan SLIAC o dan adran 13 o’r Bil a bydd darpariaethau’r adran honno yn gymwys yn unol â hynny.

Janet Finch-Saunders

23

Section 39, page 24, after line 31, insert –

- () The evaluation report must also set out the Welsh Ministers’ assessment of the impact of the proposals on agricultural output.’

Adran 39, tudalen 24, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- () Rhaid i’r adroddiad gwerthuso hefyd nodi asesiad Gweinidogion Cymru o effaith y cynigion ar allbwn amaethyddol.’

Carolyn Thomas

51

Section 39, page 24, after line 34, insert –

- (4) As soon as reasonably practicable after publishing an evaluation report, the Welsh Ministers must send a copy of it to the Office of Environmental Governance Wales.
- (5) Sending a copy of the report under subsection (4) is to be treated as a request by the Welsh Ministers to the Office of Environmental Governance Wales for advice under section 13 of the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx).’.

Adran 39, tudalen 24, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- (4) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerthuso, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi ohono i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.
- (5) Mae anfon copi o’r adroddiad o dan is-adran (4) i’w drin fel cais gan Weinidogion Cymru i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru am gyngor o dan adran 13 o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx).’.

The purpose of this amendment is to provide an express role for the OEGW in the Welsh Ministers’ evaluation report process under section 6A of the Environment (Wales) Act 2016, which is to be inserted into that Act by section 39(1) of the Bill. The effect of this amendment is that the Welsh Ministers must provide a copy of their evaluation report to the OEGW as soon as reasonably practicable after publishing it. Doing so will be treated as the Welsh Ministers requesting advice from the OEGW under section 13 of the Bill and the provisions of that section will apply accordingly.

Diben y gwelliant hwn yw darparu rôl ddatganedig ar gyfer SLIAC ym mhroses Gweinidogion Cymru o lunio adroddiad gwerthuso o dan adran 6A o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd i’w mewnosod yn y Ddeddf honno gan adran 39(1) o’r Bil. Effaith y gwelliant hwn yw bod rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu copi o’u hadroddiad gwerthuso i SLIAC cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl ei gyhoeddi. Os gwneir hynny, caiff ei drin fel pe bai Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan SLIAC o dan adran 13 o’r Bil a bydd darpariaethau’r adran honno yn gymwys yn unol â hynny.

Rhys ab Owen

7

Section 44, page 27, after line 5, insert –

“Aarhus convention” (“*Confensiwn Aarhus*”) means the United Nations Economic Commission for Europe Convention on Access to Information, Public Participation in Decision-making and Access to Justice in Environmental Matters adopted on 25 June 1998 in Aarhus, Denmark, at the Fourth Ministerial Conference in the ‘Environment for Europe’ process;’.

Adran 44, tudalen 27, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘ystyr “confensiwn Aarhus” (“*Aarhus convention*”) yw Confensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd yn y Broses o Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol a fabwysiadwyd ar 25 Mehefin 1998 yn Aarhus, Denmarc, yn y Bedwaredd Gynhadledd Weinidogol ym mhroses ‘Amgylchedd Ewrop’;’.

Delyth Jewell

52

Page 28, after line 9, insert a new section –

[] **Meaning of “public authority”: review**

- (1) The Welsh Ministers must, as soon as practicable after the end of each reporting period, lay before Senedd Cymru and publish a report on the consideration they have given during that period to the definition of “public authority” in sections 5(4) and 32 of this Act.
- (2) The report must, in particular, address –
 - (a) the consideration given during the reporting period to expanding the definition of “public authority” to include additional reserved authorities who exercise functions in Wales;
 - (b) any steps taken by the Welsh Ministers to secure the necessary consents under the Government of Wales Act 2006 (c. 32) to expand the definition.
- (3) In this section, “reporting period” means –
 - (a) the period of 3 years beginning with the date this Act comes into force, and
 - (b) each subsequent period of 3 years.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

[] **Ystyr “awdurdod cyhoeddus”: adolygiad**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, osod gerbron Senedd Cymru a chyhoeddi adroddiad ar yr ystyriaeth y maent wedi ei rhoi yn ystod y cyfnod hwnnw i’r diffiniad o “awdurdod cyhoeddus” yn adrannau 5(4) a 32 o’r Ddeddf hon.
- (2) Rhaid i’r adroddiad, yn benodol, fynd i’r afael ag –
 - (a) yr ystyriaeth a roddwyd yn ystod y cyfnod adrodd i ehangu’r diffiniad o “awdurdod cyhoeddus” i gynnwys awdurdodau ychwanegol a gedwir yn ôl sy’n arfer swyddogaethau yng Nghymru;
 - (b) unrhyw gamau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i sicrhau’r cydsyniadau angenrheidiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) i ehangu’r diffiniad.

(3) Yn yr adran hon, ystyr “cyfnod adrodd” yw –

- (a) y cyfnod o 3 blynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y daw’r Ddeddf hon i rym, a
- (b) pob cyfnod dilynol o 3 blynedd.’.

Delyth Jewell

48

Schedule 4, page 46, line 30, leave out paragraph 5.

Atodlen 4, tudalen 46, llinell 29, hepgorer paragraff 5.